**Dyddiadau ffenestri mynegi diddordeb Tachwedd 2022**

| **Cynllun** | **Crynodeb** | **Dyddiadau ffenestri** |
|---|---|---|
| Estyniadau i Gontractau Glastir | Bydd ffermwyr sydd â chontractau Glastir yn/wedi cael cynnig estyniad i'w contract drwy eu Cyfrif RPW Ar-lein cyn diwedd y flwyddyn.<br><br>Mi fydd gan y rhai sy'n cael cynnig estyniadau contract tan 31ain Rhagfyr 2022 i dderbyn. | |
| Llacio Rheolau Glastir | Gall unrhyw ffermwr sy'n cael anhawster cwrdd â gofynion ei gontract Glastir ofyn am lacio'r rheolau, gan ddefnyddio'i gyfrif RPW Ar-lein.<br><br>Gellir gwneud cais i lacio'r rheolau ar unrhyw opsiwn o fewn contract Glastir ac ystyrir y ceisiadau fesul achos.<br><br>Dylid darparu manylion yr opsiwn a rhif y cae, ynghyd â chymaint o wybodaeth â phosib ynghylch yr amgylchiadau sydd wedi arwain at y cais. Gall fod angen dogfennau ategol mewn rhai amgylchiadau, yn dibynnu ar natur y cais.<br><br>**FODD BYNNAG, fel mae pethau'n sefyll ar hyn o bryd, bydd yn rhaid fforffedu'r taliad perthnasol ar y parsel tir dan sylw.** | |
| Cynllun Cynllunio Creu Coetir | Mae'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir yn cynnig grantiau o rhwng £1000 a £5000 i ddatblygu cynlluniau i greu coetir newydd.<br><br>Ar ôl i gynllun gael ei gymeradwyo gan Cyfoeth Naturiol Cymru mi fydd yn gymwys i dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i blannu coed.<br><br>Mae gwybodaeth bellach ar gael yma: https://llyw.cymru/cynllun-cynllunio-creu-coetir<br><br>Mae dyluniad y cynllun yn seiliedig ar y cynllun peilot a gynhaliwyd y llynedd. Bydd y cynllun ar agor trwy'r flwyddyn (yn amodol ar gyllideb), gyda cheisiadau'n cael eu dethol bob 6 wythnos.<br><br>Bydd cyllid ar gyfer creu coetir ar gael o Awst 2022, gyda ffenestri'n agor bob 3 mis o hynny ymlaen (yn amodol ar gyllideb). | Ar agor tan 31ain Rhagfyr 2022 |

| | | |
|---|---|---|
| Datblygu Garddwriaeth | Mae'r Cynllun Datblygu Garddwriaeth yn gynllun grant Cyfalaf sydd ar gael i gynhyrchwyr garddwriaethol masnachol presennol ledled Cymru. Nod y cynllun yw:<br><br>• Cynorthwyo cynhyrchwyr garddwriaethol masnachol presennol i ddatblygu eu busnesau drwy fuddsoddi mewn cyfarpar a thechnoleg newydd sy'n cynnig manteision clir a mesuradwy i'r busnes garddwriaethol.<br>• Galluogi busnesau garddwriaethol i ehangu cynhyrchiant yn gynaliadwy, arallgyfeirio i dyfu cnydau newydd, gwella effeithlonrwydd cynhyrchu a gwella ansawdd y cynnyrch.<br>• Galluogi cynhyrchwyr garddwriaethol i fynd i farchnadoedd newydd. Cynyddu cyflogaeth leol a chefnogi'r economi wledig fel rhan o'r adferiad gwyrdd o Covid-19.<br><br>Mae'r cynllun yn ddewisol. Byddai swm y grant a gynigir yn dibynnu ar amgylchiadau unigol a bydd pob swm yn **isafswm angenrheidiol** i ganiatáu i'r buddsoddiadau fynd rhagddynt.<br><br>Mwy o wybodaeth:<br><br>https://llyw.cymru/horcynllun-datblygu-garddwriaeth | 5ed Rhagfyr 2022 – 10fed Mawrth 2023 |

| | | |
|---|---|---|
| Cynllun Arallgyfeirio Amaethyddol | Mae cyllideb o £1.5m wedi'i dyrannu ar gyfer y cyfnod ymgeisio hwn.<br><br>Cynllun grant cyfalaf yw'r Cynllun Arallgyfeirio Amaethyddol, sydd ar gael i ffermwyr ym mhob rhan o Gymru. Amcanion y cynllun yw:<br><br>• Helpu i sefydlu mentrau arallgyfeirio amaethyddol hyfyw newydd ar ffermydd<br>• Helpu i ddatblygu mentrau gwreiddiol neu arbenigol sy'n bod eisoes<br>• Gwneud amaethyddiaeth Cymru yn fwy cydnerth trwy ddatblygu ffrydiau incwm amrywiol<br>• Lleihau'r ddibyniaeth ar fentrau amaethyddol traddodiadol<br>• Ymateb i gyfleoedd mewn marchnadoedd newydd a datblygu marchnadoedd newydd.<br><br>Bydd y cynllun yn darparu grantiau cyfalaf i helpu i sefydlu neu ddatblygu prosiectau arallgyfeirio amaethyddol, gan gynnwys tyfu cnydau gwahanol neu amgen, ychwanegu gwerth at gynnyrch neu sgil-gynnyrch nad yw'n fwyd, a mentrau da byw nad ydynt yn fentrau traddodiadol yng Nghymru, er enghraifft godro defaid neu eifr.<br><br>Mwy o wybodaeth:<br>https://llyw.cymru/cynllun-arallgyfeirio-amaethyddol | 10fed Hydref 2022 – 13eg Ionawr 2023 |

| | | |
|---|---|---|
| Grant Datblygu Mawndiroedd | Mae £100,000 o arian cyfalaf ar gael ar ffurf grantiau o £10,000-£30,000 ar gyfer unigolion a sefydliadau sydd am **ddatblygu prosiectau cadwraeth mawndiroedd.**<br><br>Rhaid i'r prosiectau a lwyddodd i gael Grant Datblygu Rownd 2 fod wedi'u cwblhau erbyn diwedd Mawrth 2024.<br><br>Yna mi allai'r rhain fod yn brosiectau sy'n barod i'w cyflenwi yn 2024/25, wedi'u hariannu o bosib drwy'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, neu ffrydiau ariannu eraill.<br><br>Ceir yr holl fanylion a'r broses ymgeisio ar y we-dudalen Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd.<br><br>Cynhelir **gweminarau** ar-lein i esbonio'r broses ymgeisio ar 30/11/22 (9:30am Saesneg ac 11:00am Cymraeg) a gellir cofrestru yn Gymraeg neu Saesneg Bydd recordiad o'r gweminarau'n cael ei lwytho ar-lein ichi allu troi ato fel y mynnoch.<br><br>**Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y grant** a'r broses ymgeisio at grants.enquiries@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk<br><br>Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau am y **map**, neu'r **mawndir** yn benodol at NPAP@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk | 8fed Tachwedd 2022 i 8fed Chwefror 2023 |

| | | |
|---|---|---|
| Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd | Mae'r cynllun hwn yn cynnig cymorth ar gyfer buddsoddiadau diriaethol a/neu anniriaethol mewn gweithgareddau prosesu sy'n dod â manteision clir a mesuradwy i'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru a'i gadwyni cyflenwi.<br>Gall ffrwyth y gweithgaredd fod yn unrhyw fath o gynnyrch bwyd a diod i'w fwyta gan bobl; cynhyrchion bwyd anifeiliaid fferm neu anwes; cynhyrchion bwyd swyddogaethol eraill; cynhyrchion maethol-fferyllol; a chynhyrchion nad ydynt yn fwyd megis bio-blastigau.<br><br>**Rydych chi'n gymwys i ymgeisio:**<br>Os ydych chi'n **fusnes sydd wedi cofrestru ar gyfer TAW** sy'n ymgymryd â phrosesau cynradd a/neu eilaidd mewn cynnyrch amaethyddol ac anamaethyddol, megis:<br><br>• cwmnïau cyfyngedig preifat a chyhoeddus<br>• unig fasnachwyr a phartneriaethau<br>• busnesau fferm sy'n prosesu cynnyrch amaethyddol<br>• busnesau newydd, gan gynnwys hen fusnesau sy'n dechrau arallgyfeirio a busnesau sydd newydd eu sefydlu<br>• cwmnïau nid-er-elw, cwmnïau cydweithredol a mudiadau cymunedol, cyhoeddus a gwirfoddol<br><br>Yn ogystal, er mwyn cael gwneud cais rhaid eich bod wedi cofrestru gyda Llywodraeth Cymru ac wedi cael Cyfeirnod Cwsmer (CRN).<br>**Costau Cymwys**<br>Gellir defnyddio'r cymorth o dan y cynllun hwn ar gyfer asedau tiriaethol megis prynu a/neu ddatblygu tir, adeiladau, peiriannau, a chyfarpar, yn ogystal ag asedau anniriaethol fel meddalwedd gyfrifiadurol, hawliau patent, a thrwyddedau a ffioedd ar gyfer gwasanaethau technegol ac ymgynghori, yn amodol ar gyfyngiadau:<br><br>Y grant mwyaf a roddir fesul menter ar gyfer unrhyw brosiect buddsoddi unigol yw **£5,000,000**<br>Y grant lleiaf a roddir fesul menter ar gyfer unrhyw brosiect buddsoddi unigol yw **£20,000**<br><br>Mwy o wybodaeth:<br>https://llyw.cymru/cynllun-sbarduno-busnesau-bwyd-canllawiau-html | Yn agor ar 17eg Tachwedd 2022 a bob 4 wythnos detholir buddiolwyr llwyddiannus i'w gwahodd i gyflwyno cais llawn. Bydd y ffenestr yn aros ar agor nes bod y gyllideb a ddyrannwyd wedi'i defnyddio. |